



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 432 (Cy.55)

2002 No. 432 (W.55)

ADDYSG, CYMRU

EDUCATION, WALES

Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth
Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol
Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
2002

The School Organisation Proposals
by the National Council for
Education and Training for Wales
Regulations 2002

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

O dan Atodlen 7 i Ddeddf Dysgu a Medrau 2000 caiff Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant ("y Cyngor") gyhoeddi cynigion i newid ysgol a gynhelir fel na fydd mwyach yn darparu addysg chweched dosbarth, neu i gau ysgol a gynhelir sy'n sefydliad 16-19 oed os oes, a siarad yn fras, ddau adroddiad olynol yn datgan bod y chweched dosbarth yn annigonol neu fod ar sefydliad 16-19 oed angen mesurau arbennig neu fod ganddo wendidau arwyddocaol.

Under Schedule 7 to the Learning and Skills Act 2000 the National Council for Education and Training for Wales ("the Council") may publish proposals for the alteration of a maintained school so that it no longer provides sixth form education, or for the discontinuance of a maintained school which is a 16-19 institution if, broadly speaking, two successive reports state that the sixth form is inadequate or that a 16-19 institution requires special measures or has significant weaknesses.

Mae'r Atodlen yn nodi gweithdrefnau ar gyfer arfer y pwerau hyn gan y Cyngor. Yn benodol, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi cynigion y mae arnynt angen cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Nodir y fframwaith ar gyfer y gweithdrefnau hyn yn yr Atodlen, ond mae llawer o'r manylion i'w rhagnodi mewn Rheoliadau a wneir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gweithdrefnau hynny.

The Schedule lays down procedures for the exercise of these powers by the Council. In particular, the Council must publish proposals which require the approval of the National Assembly. The framework for these procedures is laid down in the Schedule, but much of the detail is to be prescribed in Regulations made by the National Assembly. These Regulations prescribe those details.

Mae rheoliad 2 yn diffinio'r termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau.

Regulation 2 defines terms used in the Regulations.

Mae rheoliad 3 gydag Atodlen 1 yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cynigion a gyhoeddir.

Regulation 3 with Schedule 1 prescribes the information which must be contained in published proposals.

Mae rheoliad 4 yn rhagnodi'r modd y mae'n rhaid cyhoeddi cynigion.

Regulation 4 prescribes the manner in which proposals must be published.

Mae rheoliad 5 gydag Atodlen 2 yn rhagnodi'r wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid ei hanfon at y

Regulation 5 with Schedule 2 prescribes additional information which must be sent to the National

Cynulliad Cenedlaethol gyda'r cynigion a gyhoeddir.

Mae rheoliad 6 yn rhagnodi cyrff eraill y mae'n rhaid anfon copi o'r cynigion atynt yn achos ysgolion arbennig.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer y terfynau amser i wrthwynebu cynigion.

Mae rheoliad 8 yn rhagnodi'r digwyddiadau y gellir eu pennu yn achos cymeradwyaeth amodol i'r cynigion.

Mae rheoliad 9 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol roi gwybodaeth am ei benderfyniadau i'r personau a bennir yn y Rheoliad hwnnw.

Mae rheoliad 10 gydag Atodlen 3 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynigion gan y Cyngor na ddylid gweithredu cynigion blaenorol y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'u cymeradwyo.

Mae rheoliad 11 yn gwneud darpariaeth arbennig i weithredu cynigion pan fydd ysgol yn newid categori o fod yn ysgol gymunedol neu'n ysgol arbennig gymunedol.

Assembly with the published proposals.

Regulation 6 prescribes other bodies to whom a copy of the proposals must be sent in the case of special schools.

Regulation 7 provides for the time limits for objections to proposals.

Regulation 8 prescribes events which can be specified in the case of a conditional approval of proposals.

Regulation 9 requires the National Assembly to provide information about its decisions to the persons specified in that Regulation.

Regulation 10 with Schedule 3 makes provision for proposals by the Council that previous proposals which the National Assembly has approved should not be implemented.

Regulation 11 makes special provision for implementation of proposals where a school changes category from being a community or community special school.

2002 Rhif 432 (Cy.55)**2002 No. 432 (W.55)****ADDYSG, CYMRU****EDUCATION, WALES****Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth
Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol
Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
2002****The School Organisation Proposals
by the National Council for
Education and Training for Wales
Regulations 2002***Wedi'u gwneud**22 Chwefror 2002**Made**26th February 2002**Yn dod i rym**1 Ebrill 2002**Coming into force**1st April 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(a) a pharagraff 5 o Atodlen 8 iddi ac sydd bellach wedi'u breinio yn y Cynulliad(b), a thrwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 152(5) a (6) o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(c) a pharagraffau 20(2), 21, 22, 28(2), 29, 30, 39(2), 40, 41, 42(4) a 43(4) o Atodlen 7 iddi.

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 138(7) and (8) of, and paragraph 5 of Schedule 8 to, the School Standards and Framework Act 1998(a) and now vested in the Assembly(b), and in exercise of the powers conferred on it by section 152(5) and (6) of, and paragraphs 20(2), 21, 22, 28(2), 29, 30, 39(2), 40, 41, 42(4) and 43(4) of Schedule 7 to the Learning and Skills Act 2000(c).

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant 2002 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Name, commencement and application

1.-(1) These Regulations are called the School Organisation Proposals by the National Council for Education and Training for Wales Regulations 2002 and shall come into force on 1st April 2002.

(2) These Regulations apply to Wales.

Dehongli

2. -(1) Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "coleg addysg bellach" ("*further education college*") yw sefydliad o fewn y sector addysg bellach (o fewn ystyr adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992)(ch);

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;

ystyr "cynigion i gau chweched dosbarth" ("*proposals to discontinue a sixth form*") yw

Interpretation

2. -(1) In these Regulations -

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the School Standards and Framework Act 1998;

"the 2000 Act" ("*Deddf 2000*") means the Learning and Skills Act 2000;

"16 to 19 institution" ("*sefydliad 16 i 19 oed*") means a maintained school which -

(a) provides full-time education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age, and

(a) 1998 p.31.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) 2000 p.21.

(ch) 1992 p.13.

(a) 1998 c.31.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) 2000 c.21.

cynigion o'r math a grybwyllir ym mharagraff 20(1) o Atodlen 7;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "datganiad o anghenion addysgol arbennig" ("*statement of special educational needs*") yw datganiad o anghenion addysgol arbennig a gynhelir o dan Ran IV o Ddeddf Addysg 1996(a);

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Medrau 2000;

mae i "grŵp oedran perthnasol" yr ystyr a roddir i "*relevant age group*" gan adran 142(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "sefydliad 16 i 19 oed" ("*16 to 19 institution*") yw ysgol a gynhelir -

- (a) sy'n darparu addysg llawn amser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol, a
- (b) nad yw'n darparu addysg llawn amser sy'n addas i ofynion disgyblion oedran ysgol gorfodol;

ystyr "ysgol arbennig" ("*special school*") yw ysgol gymunedol arbennig neu ysgol sefydledig arbennig;

ystyr "ysgol prif-ffrwd" ("*mainstream school*") yw ysgol a gynhelir heblaw ysgol arbennig.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at Atodlen 7 yn gyfeiriad at Atodlen 7 i Ddeddf 2000.

(3) At ddibenion y Rheoliadau hyn dyddiad cyhoeddi cynigion yw -

- (a) y dyddiad pan fodlonir gofynion rheoliad 4; neu
- (b) pan fodlonir gofynion gwahanol ar ddyddiadau gwahanol, yr olaf o'r dyddiadau hynny.

Yr wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn cynigion a gyhoeddir

3. -(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi'r wybodaeth y mae'n rhaid i gynigion a gyhoeddir o dan baragraff 20 neu 28 o Atodlen 7 ei chynnwys at ddibenion paragraffau 20(2) a 28(2) o Atodlen 7.

(2) Rhaid i'r cynigion hynny gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn.

Dull cyhoeddi'r cynigion

4. -(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi dull cyhoeddi'r cynigion y mae'n ofynnol eu cyhoeddi o dan

(a) 1996 p.56.

(b) does not provide full-time education suitable to the requirements of pupils of compulsory school age;

"the Council" ("*y Cyngor*") means the National Council for Education and Training for Wales;

"further education college" ("*coleg addysg bellach*") means an institution within the further education sector (within the meaning of section 91(3) of the Further and Higher Education Act 1992)(a);

"mainstream school" ("*ysgol prif-ffrwd*") means a maintained school other than a special school;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"proposals to discontinue a sixth form" ("*cynigion i gau chweched dosbarth*") means proposals such as are mentioned in paragraph 20(1) of Schedule 7;

"relevant age group" ("*grŵp oedran perthnasol*") has the meaning given to it by section 142(1) of the 1998 Act;

"special school" ("*ysgol arbennig*") means a community or foundation special school;

"statement of special educational needs" ("*datganiad o anghenion addysgol arbennig*") means a statement of special educational needs maintained under Part IV of the Education Act 1996(b).

(2) Any reference in these Regulations to Schedule 7 is a reference to Schedule 7 to the 2000 Act.

(3) For the purposes of these Regulations the date of publication of proposals is -

- (a) the date on which the requirements of regulation 4 are satisfied; or
- (b) where different requirements are satisfied on different dates, the last of such dates.

Information to be contained in published proposals

3. -(1) This regulation prescribes for the purposes of paragraphs 20(2) and 28(2) of Schedule 7, the information which proposals published under paragraph 20 or 28 of Schedule 7 must contain.

(2) Such proposals must contain the information specified in Schedule 1 to these Regulations.

Manner of publication of proposals

4. -(1) This regulation prescribes for the purposes of paragraphs 20(2) and 28(2) of Schedule 7 the manner

(a) 1992 c.13.

(b) 1996 c.56.

baragraff 20 neu 28 o Atodlen 7 at ddibenion paragraffau 20(2) a 28(2) o Atodlen 7.

(2) Os ysgol a gynhelir yw'r ysgol, rhaid cyhoeddi cynigion o'r fath -

- (a) drwy eu gosod mewn man amlwg yn yr ardal y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu;
- (b) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal honno; ac
- (c) drwy eu gosod ym mhrif fynedfa'r ysgol neu wrth ei hymyl neu, os oes mwy nag un brif fynedfa, pob un ohonynt.

(3) Pan fydd ysgol yn ysgol arbennig, rhaid cyhoeddi cynigion o'r fath -

- (a) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol; a
- (b) drwy eu gosod ym mhrif fynedfa'r ysgol neu wrth ei hymyl neu, os oes mwy nag un brif fynedfa, pob un ohonynt.

Yr wybodaeth sydd i'w hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol

5. -(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi, at ddibenion paragraffau 21(1)(b) a 29(1)(b) o Atodlen 7, yr wybodaeth y mae'n rhaid i'r Cyngor ei hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid i'r Cyngor anfon at y Cynulliad Cenedlaethol yr wybodaeth a bennir yn Rhan II o Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn, os yw'r ysgol yn ysgol prif-ffrwd, neu Ran III o'r Atodlen honno, os yw'r ysgol yn ysgol arbennig, ynghyd â'r canlynol -

- (a) yr wybodaeth a bennir yn Rhan IV o'r Atodlen honno, os yw'r cynigion yn gynigion i gau chweched dosbarth; neu
- (b) yr wybodaeth a bennir yn Rhan V o'r Atodlen honno, os yw'r cynigion yn gynigion i gau sefydliad 16-19 oed.

(3) Mae Rhan I o Atodlen 2 yn gymwys er mwyn dehongli'r termau a ddefnyddir yn Rhannau II i V o'r Atodlen honno.

Cyrff y mae'n rhaid anfon copi o'r cynigion a gyhoeddir atynt - ysgolion arbennig

6. -(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi, at ddibenion paragraffau 21(2) a 29(2) o Atodlen 7, y cyrff neu'r personau, yn achos ysgol arbennig, y mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd anfon copi o'r cynigion a gyhoeddir atynt.

(2) Rhaid i'r Cyngor anfon copi o'r cynigion a gyhoeddir -

- (a) at yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol;
- (b) at bob awdurdod addysg lleol sy'n cynnal

of publication of proposals required to be published under paragraph 20 or 28 of Schedule 7.

(2) Where the school is a maintained school, such proposals shall be published -

- (a) by being posted in a conspicuous place in the area served by the school;
- (b) in at least one newspaper circulating in that area; and
- (c) by being posted at or near the main entrance to the school or, if there is more than one main entrance, all of them.

(3) Where the school is a special school, such proposals shall be published -

- (a) in at least one newspaper circulating in the area of the local education authority who maintain the school; and
- (b) by being posted at or near the main entrance to the school or, if there is more than one main entrance, all of them.

Information to be sent to the National Assembly

5. -(1) This regulation prescribes for the purposes of paragraphs 21(1)(b) and 29(1)(b) of Schedule 7 the information which the Council must send to the National Assembly.

(2) The Council shall send to the National Assembly the information specified in Part II of Schedule 2 to these Regulations, where the school is a mainstream school, or Part III of that Schedule, where the school is a special school, together with -

- (a) the information specified in Part IV of that Schedule, where the proposals are to discontinue a sixth form; or
- (b) the information specified in Part V of that Schedule, where the proposals are to discontinue a 16-19 institution.

(3) Part 1 of Schedule 2 applies for the purpose of the interpretation of terms used in Parts II to V of that Schedule.

Bodies to whom a copy of the published proposals must be sent - special schools

6. -(1) This regulation prescribes for the purposes of paragraphs 21(2) and 29(2) of Schedule 7 the bodies or persons to whom, in the case of a special school, the Council shall also send a copy of the published proposals.

(2) The Council shall send a copy of the published proposals to -

- (a) the local education authority who maintain the school;
- (b) each local education authority who maintain a

datganiad o anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â disgybl cofrestredig yn yr ysgol honno;

- (c) at rieni pob disgybl cofrestredig sydd yn yr ysgol;
- (ch) at unrhyw Awdurdod Iechyd sy'n gweithredu dros unrhyw ardal sy'n cynnwys unrhyw ran o ardal yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal neu y cynigir y dylai gynnal yr ysgol; a
- (d) at unrhyw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol sydd â chyfrifoldeb am berchenogaeth neu reolaeth unrhyw ysbyty neu sefydliad arall neu gyfleusterau yn ardal yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol.

Gwrthwynebiadau i'r cynigion

7. -(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi, at ddibenion paragraff 41 o Atodlen 7, y cyfnod pryd y gellir anfon gwrthwynebiadau i'r cynigion at y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Rhaid anfon gwrthwynebiadau at y Cynulliad Cenedlaethol o fewn mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion.

Cymeradwyaethau amodol

8. -(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi mathau o ddigwyddiadau at ddibenion paragraff 42(4) o Atodlen 7 (sy'n darparu y gall cymeradwyaeth i gynigion fod yn ddarostyngedig i ddigwyddiad penodedig sydd o fath rhagnodedig ac sy'n gorfod digwydd erbyn amser penodedig).

(2) Y mathau o ddigwyddiadau yw unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol sy'n ymwneud ag unrhyw ysgol neu ysgol arfaethedig arall y cyhoeddwyd cynigion ynglyn â hi o dan adran 28 neu 31 o Ddeddf 1998 -

- (a) rhoi caniatâd cynllunio o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(a);
- (b) caffael tir y mae'r ysgol newydd, ehangiad arfaethedig o safle'r ysgol neu newid arall yn safle'r ysgol i gael eu hadeiladau arno;
- (c) caffael meysydd chwarae sydd i'w darparu ar gyfer yr ysgol;
- (ch) sicrhau unrhyw fynedfa angenrheidiol i dir neu feysydd chwarae y cyfeirir atynt ym mharagraffau (b) ac (c) yn ôl eu trefn yn y paragraff hwn;
- (d) gwneud trafodiad cyllid preifat o fewn ystyr rheoliad 16 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) 1997(b); ac

statement of special educational needs in respect of a registered pupil at the school;

- (c) the parents of each registered pupil at the school;
- (d) any Health Authority which acts for any area which includes any part of the area of the local education authority who maintain or who it is proposed should maintain the school; and
- (e) any National Health Service Trust who have responsibility for the ownership or management of any hospital or other establishment or facilities in the area of the local education authority who maintain the school.

Objections to proposals

7. -(1) This regulation prescribes for the purposes of paragraph 41 of Schedule 7 the period within which objections to the proposals may be sent to the National Assembly.

(2) Objections shall be sent to the National Assembly within one month after the date of publication of the proposals.

Conditional approvals

8. -(1) This regulation prescribes kinds of events for the purposes of paragraph 42(4) of Schedule 7 (which provides that approval of proposals may be subject to the occurrence by a specified time of a specified event which is of a prescribed kind).

(2) The kinds of events are any of the following events relating to any other school or proposed school in respect of which proposals have been published under section 28 or 31 of the 1998 Act -

- (a) the grant of planning permission under Part III of the Town and Country Planning Act 1990(a);
- (b) the acquisition of a site on which the new school, a proposed enlargement of the premises of the school or other alteration of the premises of the school is to be constructed;
- (c) the acquisition of playing fields to be provided for the school;
- (d) the securing of any necessary access to a site or playing fields referred to in paragraphs (b) and (c) respectively of this paragraph;
- (e) the entering into of a private finance transaction within the meaning of regulation 16 of the Local Authorities (Capital Finance) Regulations 1997(b); and

(a) 1990 p.8.

(b) O.S. 1997/319; a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/371.

(a) 1990 c.8.

(b) S.I. 1997/319; amended by S.I. 1998/371.

(dd) gwneud unrhyw gynllun sy'n ymwneud ag unrhyw elusen sy'n gysylltiedig â'r ysgol neu'r ysgol arfaethedig.

Darparu gwybodaeth gan y Cynulliad Cenedlaethol

9. -(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol hysbysu'r personau canlynol o bob penderfyniad a wneir o dan baragraff 42(1) neu 43(2) o Atodlen 7 -

- (a) y Cyngor;
- (b) yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol;
- (c) os yw'r ysgol yn ysgol arbennig, pob awdurdod addysg lleol sy'n cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig mewn perthynas â disgybl cofrestredig yn yr ysgol;
- (ch) corff llywodraethu'r ysgol y mae'r cynigion yn ymwneud â hi; a
- (d) yn ddarostyngedig i baragraff (3), pob gwrthwynebydd y darparwyd cyfeiriad ar ei gyfer i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Pan fydd y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â pharagraff (1), yn hysbysu'r personau y cyfeirir atynt yn y paragraff hwnnw o benderfyniad rhaid iddynt eu hysbysu hefyd o'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

(3) Os bydd gwrthwynebiadau i gynnig ar ffurf deiseb (sef dogfen sy'n cynnwys testun un gwrthwynebiad wedi'i llofnodi gan fwy nag un gwrthwynebydd) gall y Cynulliad Cenedlaethol gydymffurfio â pharagraff (1)(d) -

- (a) drwy hysbysu'r person (os oes un) y mae'n ymddangos iddynt ei fod wedi trefnu i'r ddeiseb gael ei hanfon at y Cynulliad Cenedlaethol (os darparwyd cyfeiriad ar gyfer y person hwnnw); neu
- (b) os nad oes person o'r fath (neu os na ddarparwyd cyfeiriad ar gyfer y person hwnnw), drwy hysbysu unrhyw un wrthwynebydd y mae ei enw'n ymddangos ar y ddeiseb.

Cynigion a gyhoeddir o dan baragraff 43(4) o Atodlen 7

10. Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas â chynigion o dan baragraff 43(4) o Atodlen 7 (cynigion a gafodd eu cyhoeddi a'u cymeradwyo'n flaenorol o dan Atodlen 7 nad ydynt i'w gweithredu).

Newid categori ysgol

11. Os bydd ysgol, ar ôl i gynigion gael eu cyhoeddi o dan Atodlen 7 ond cyn iddynt gael eu gweithredu, yn newid categori o dan Atodlen 8 i Ddeddf 1998 o ysgol gymunedol neu ysgol gymunedol arbennig rhaid i'r

(f) the making of any scheme relating to any charity connected with the school or proposed school.

Provision of information by the National Assembly

9. -(1) The National Assembly shall notify the following persons of each decision taken under paragraph 42(1) or 43(2) of Schedule 7 -

- (a) the Council;
- (b) the local education authority who maintain the school;
- (c) where the school is a special school, each local education authority who maintain a statement of special educational needs in respect of a registered pupil at the school;
- (d) the governing body of the school to which the proposals relate; and
- (e) subject to paragraph (3), each objector for whom an address has been provided to the National Assembly.

(2) Where, pursuant to paragraph (1), the National Assembly notifies the persons referred to in that paragraph of a decision they shall also notify them of the reasons for that decision.

(3) Where objections to a proposal take the form of a petition (that is to say a document containing the text of one objection signed by more than one objector) the National Assembly may comply with paragraph (1)(e) by -

- (a) notifying the person (if any) who appears to them to have arranged for the petition to be sent to the National Assembly (if an address has been provided for that person); or
- (b) if there is no such person (or an address has not been provided for that person), notifying any one objector whose name appears on the petition.

Proposals published under paragraph 43(4) of Schedule 7

10. Schedule 3 to these Regulations has effect in relation to proposals under paragraph 43(4) of Schedule 7 (proposals previously published and approved under Schedule 7 not to be implemented).

Change of category of school

11. Where, after proposals have been published under Schedule 7 but before they have been implemented, a school changes category under Schedule 8 to the 1998 Act from a community or

cynigion (i'r graddau nad ydynt wedi cael eu gweithredu) gael eu gweithredu gan yr awdurdod addysg lleol (er gwaethaf paragraff 44 o Atodlen 7).

community special school the proposals shall (to the extent that they have not been implemented) be implemented by the local education authority (despite paragraph 44 of Schedule 7).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a).

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a).

26 Chwefror 2002

26th February 2002

D. Elis - Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

**YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS
MEWN CYNIGION A GYHOEDDIR**

1. Datganiad bod y cynigion yn cael eu cyhoeddi gan y Cyngor.
2. Y dyddiad y bwriedir gweithredu'r cynigion neu, os bwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam, y dyddiad y bwriedir gweithredu pob cam.
3. Manylion yr ysgolion neu'r colegau addysg bellach y gall disgyblion sydd yn yr ysgol y bwriedir cau'r ddarpariaeth ar eu cyfer fynychu, gan gynnwys unrhyw drefniadau dros dro.
4. Y trefniadau arfaethedig i gludo'r disgyblion hynny i ysgolion eraill neu golegau addysg bellach.
5. Manylion unrhyw fesurau eraill y bwriedir eu cymryd i gynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion neu golegau addysg bellach sydd ar gael yn sgil y bwriad i gau'r ddarpariaeth.
6. Os cynigion ydynt i gau chweched dosbarth, nifer y disgyblion sydd i'w derbyn i'r ysgol ym mhob grŵp oedran perthnasol yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae'r cynigion wedi'u gweithredu neu, os bwriedir gweithredu'r cynigion fesul cam, nifer y disgyblion sydd i'w derbyn i'r ysgol yn y flwyddyn ysgol gyntaf y mae pob cam wedi'u gweithredu.
7. Os cynigion ydynt i gau chweched dosbarth -
 - (a) mewn ysgol gymunedol neu ysgol gymunedol arbennig, datganiad mai dyletswydd ar yr awdurdod addysg lleol yw'r ddyletswydd i weithredu'r cynigion,
 - (b) mewn ysgol wirfoddol, ysgol sefydledig neu ysgol sefydledig arbennig, datganiad mai dyletswydd ar y corff llywodraethu yw'r ddyletswydd i weithredu'r cynigion.
8. Os cynigion ydynt i gau -
 - (a) sefydliad 16-19 oed sy'n ysgol gymunedol neu'n ysgol gymunedol arbennig, datganiad mai dyletswydd ar yr awdurdod addysg lleol yw'r ddyletswydd i weithredu'r cynigion,
 - (b) sefydliad 16-19 oed sy'n ysgol wirfoddol neu'n ysgol sefydledig, datganiad mai dyletswydd wedi'i rhannu gan y corff llywodraethu a'r awdurdod addysg lleol yw'r ddyletswydd i weithredu'r cynigion.
9. Datganiad yn esbonio effaith paragraff 41 o Atodlen 7 a rheoliad 7 gan gynnwys y dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid anfon gwrthwynebiadau at y Cynulliad Cenedlaethol.
10. Cyfeiriad y Cynulliad Cenedlaethol y mae'n rhaid anfon gwrthwynebiadau ato.

**INFORMATION TO BE CONTAINED IN
PUBLISHED PROPOSALS**

1. A statement that the proposals are published by the Council.
2. The date on which the proposals are planned to be implemented or, where the proposals are planned to be implemented in stages, the date on which each stage is planned to be implemented.
3. Details of the schools or further education colleges which pupils who are at the school and for whom provision is to be discontinued may attend, including any interim arrangements.
4. The proposed arrangements for transport of such pupils to other schools or further education colleges.
5. Details of any other measures proposed to be taken to increase the number of school or further education college places available in consequence of the proposed discontinuance of provision.
6. Where the proposals are to discontinue a sixth form, the number of pupils to be admitted to the school in each relevant age group in the first school year in which the proposals have been implemented or, where it is intended that the proposals should be implemented in stages, the number of pupils to be admitted to the school in the first school year in which each stage has been implemented.
7. Where proposals are to discontinue a sixth form at -
 - (a) a community or community special school, a statement that the duty to implement the proposals is a duty of the local education authority,
 - (b) a voluntary, foundation or foundation special school, a statement that the duty to implement the proposals is a duty of the governing body.
8. Where the proposals are to discontinue -
 - (a) a 16-19 institution which is a community or community special school, a statement that the duty to implement the proposals is a duty of the local education authority,
 - (b) a 16-19 institution which is a voluntary or foundation school, a statement that the duty to implement the proposals is a shared duty of the governing body and the local education authority.
9. A statement explaining the effect of paragraph 41 of Schedule 7 and regulation 7 including the date by which objections must be sent to the National Assembly.
10. The address of the National Assembly to which objections must be sent.

**YR WYBODAETH SYDD I'W HANFON AT Y
CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

RHAN I

DEHONGLI

1.-(1) Yn yr Atodlen hon -

ystyr "addysg chweched dosbarth" ("*sixth form education*") yw addysg llawn amser sy'n addas i ofynion disgyblion dros oedran ysgol gorfodol;

ystyr "arholiadau Safon Uwch TAG" ("*GCE 'A' level examinations*") ac "arholiadau Uwch Gyfrannol TAG" ("*GCE 'AS' examinations*") yw arholiadau safon uwch y Dystysgrif Gyffredinol Addysg ac arholiadau uwch gyfrannol y Dystysgrif Gyffredinol Addysg yn ôl eu trefn;

ystyr "y flwyddyn ysgol gyfredol" ("*the current school year*") yw'r flwyddyn ysgol y cyhoeddir y cynigion ynddi;

ystyr "GNVQ" yw Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol;

ystyr "NVQ" yw Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol;

ystyr "y radiws perthnasol" ("*the relevant radius*") yw radiws o 4.828032 cilomedr (tair milltir);

mae i "rhif safonol perthnasol" yr ystyr a roddir i "*relevant standard number*" gan adran 84(6) o Ddeddf 1998; ac

ystyr "TGAU" ("*GCSE*") yw Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon penderfynir ar faint o le sydd mewn ysgol yn unol ag Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgol) (Cymru) 1999(a).

RHAN II

**YR WYBODAETH SYDD I'W HANFON YM
MHOB ACHOS PAN FYDD YSGOL YN YSGOL
PRIF-FFRWD**

2. Amcanion y cynnig.

3. Manylion yr ymgynghori cyn i'r cynigion gael eu cyhoeddi gan gynnwys -

- (a) copïau o'r dogfennau ymgynghori; a
- (b) barn ac ymatebion y personau yr ymgynghorwyd â hwy.

4. Map yn dangos lleoliad yr ysgol sy'n destun y cynigion a phob ysgol gymunedol, ysgol wirfoddol ac ysgol sefydledig arall o fewn y radiws perthnasol i'r

(a) O.S. 1999/1671.

**INFORMATION TO BE SENT TO THE
NATIONAL ASSEMBLY**

PART I

INTERPRETATION

1.-(1) In this Schedule -

"the current school year" ("*y flwyddyn ysgol gyfredol*") means the school year in which the proposals are published;

"GCE 'A' level examinations" ("*arholiadau Safon Uwch TAG*") and "GCE 'AS' examinations" ("*arholiadau Uwch Gyfrannol TAG*") mean General Certificate of Education advanced level examinations and General Certificate of Education advanced supplementary examinations respectively;

"GCSE" ("*TGAU*") means General Certificate of Secondary Education;

"GNVQ" means General National Vocational Qualification;

"NVQ" means National Vocational Qualification;

"the relevant radius" ("*y radiws perthnasol*") means a radius of 4.828032 kilometres (three miles);

"relevant standard number" ("*rhif safonol perthnasol*") has the meaning given to it by section 84(6) of the 1998 Act; and

"sixth form education" ("*addysg chweched dosbarth*") means full-time education suitable to the requirements of pupils over compulsory school age.

(2) For the purposes of this Schedule the capacity of the school shall be determined in accordance with Schedule 1 to the Education (School Organisation Proposals) (Wales) Regulations 1999(a).

PART II

**INFORMATION TO BE SENT IN ALL CASES
WHERE THE SCHOOL IS A MAINSTREAM
SCHOOL**

2. The objectives of the proposal.

3. Details of the consultation before the proposals were published including -

- (a) copies of the consultation documents; and
- (b) the views and responses from the persons consulted.

4. A map showing the location of the school the subject of the proposals and all other community, voluntary and foundation schools within the relevant radius of

(a) S.I. 1999/1671.

ysgol.

5. Rhestr o bob ysgol uwchradd o fewn y radiws perthnasol i'r ysgol sy'n destun y cynigion, sy'n datgan pa rai o'r ysgolion hynny a gynhelir gan awdurdod addysg lleol gwahanol, ynghyd â'r wybodaeth ganlynol ar gyfer pob ysgol o'r fath am y flwyddyn ysgol gyfredol, ac am y flwyddyn ysgol flaenorol (ac eithrio'r wybodaeth a bennir yn is-baragraff (ch));

- (a) y rhif safonol perthnasol ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol;
- (b) nifer y grwpiau blwyddyn;
- (c) faint o le sydd yn yr ysgol; ac
- (ch) nifer y disgyblion yn yr ysgol

a rhagolwg o'r materion a bennir yn is-baragraffau (b) i (ch) am bob un o'r pum blwyddyn ysgol sy'n dilyn.

6. Y manylion canlynol addysg chweched dosbarth a ddarperir ar hyn o bryd yn yr ysgol -

- (a) cyrsiau sy'n arwain at arholiadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol TAG,
- (b) cyrsiau sy'n arwain at gymwysterau galwedigaethol uwch (GNVQ uwch yn benodol),
- (c) cyrsiau eraill, ac
- (ch) nifer y disgyblion sy'n mynychu pob un o'r cyrsiau.

7. Copïau o adroddiadau'r ddau arolygiad o dan Ran I o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996(a) y mae Rhan II a III o Atodlen 7 yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol o'u plegid.

RHAN III

YR WYBODAETH SYDD I'W HANFON YM MHOB ACHOS PAN FYDD YSGOL YN YSGOL ARBENNIG

8. Amcanion y cynnig.

9. Manylion yr ymgynghori cyn i'r cynigion gael eu cyhoeddi gan gynnwys -

- (a) copïau o'r dogfennau ymgynghori; a
- (b) barn ac ymatebion y personau yr ymgynghorwyd â hwy.

10. Map yn dangos lleoliad yr ysgol sy'n destun y cynigion.

11. Rhestr o'r canlynol -

- (a) yr holl ysgolion arbennig sy'n darparu addysg ar gyfer disgyblion dros oedran ysgol gorfodol, a
- (b) yr holl ysgolion eraill a gynhelir gan awdurdod addysg lleol sy'n darparu addysg i ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol y mae darpariaeth

(a) 1996 p.57.

the school.

5. A list of all secondary schools within the relevant radius of the school the subject of the proposals, stating which of such schools are maintained by a different local education authority, together with the following information in respect of each such school for the current school year, and (except for the information specified in sub-paragraph (d)) the previous school year;

- (a) the relevant standard number for each relevant age group;
- (b) the number of year groups;
- (c) the capacity of the school; and
- (d) the number of pupils at the school

and a forecast of the matters specified in sub-paragraphs (b) to (d) for each of the subsequent five school years.

6. The following details of the sixth form education currently provided at the school -

- (a) courses leading to GCE 'A' level and 'AS' examinations,
- (b) courses leading to advanced vocational qualifications (in particular advanced GNVQs),
- (c) other courses, and
- (d) the number of pupils attending each course.

7. Copies of the reports of the two inspections under Part I of the School Inspections Act 1996(a) as a result of which Parts II and III of Schedule 7 apply in relation to the school.

PART III

INFORMATION TO BE SENT IN ALL CASES WHERE THE SCHOOL IS A SPECIAL SCHOOL

8. The objectives of the proposal.

9. Details of the consultation before the proposals were published including -

- (a) copies of the consultation documents; and
- (b) the views and responses from the persons consulted.

10. A map showing the location of the school the subject of the proposals.

11. A list of all -

- (a) special schools which provide education for pupils over compulsory school age, and
- (b) other schools maintained by a local education authority which provide education for pupils over compulsory school age at which there is

(a) 1996 c.57.

ynddynt a gydnabyddir gan yr awdurdod addysg lleol yn un a gedwir ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig,

yn ardal yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol.

12. Gwybodaeth o ran -

- (a) nifer y disgyblion dros oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol y cyfeirir ati ym mharagraff 11(a), a
- (b) nifer y disgyblion dros oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol y cyfeirir ati ym mharagraff 11(b) y gwneir y ddarpariaeth y cyfeirir ati yn yr is-baragraff hwnnw ar eu cyfer,

yn y flwyddyn ysgol gyfredol a rhagolwg o'r nifer hwnnw am bob un o'r pum blwyddyn ysgol sy'n dilyn.

13. Gwybodaeth o ran nifer y disgyblion dros oedran ysgol gorfodol ag anghenion addysgol arbennig o bob un o'r mathau y mae'r awdurdod addysg lleol yn cynnal datganiad o anghenion addysgol arbennig yn y flwyddyn ysgol gyfredol ar eu cyfer ynghyd â rhagolwg o'r niferoedd hynny am bob un o'r pum blwyddyn ysgol sy'n dilyn.

14. Copïau o adroddiadau'r ddau arolygiad o dan Ran I o Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996 y mae Rhan II a III o Atodlen 7 yn gymwys mewn perthynas â'r ysgol o'u plegid.

RHAN IV

YR WYBODAETH YCHWANEGOL SYDD I'W HANFON PAN FYDD Y CYNIGION YN GYNIGION I GAU CHWECHED DOSBARTH

15. Os ysgol prif-ffrwd yw'r ysgol, yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ysgol am y flwyddyn ysgol gyfredol a'r flwyddyn ysgol flaenorol (ac eithrio'r wybodaeth a bennir ym mharagraff (c)), -

- (a) nifer y grwpiau blwyddyn,
- (b) faint o le sydd yn yr ysgol, ac
- (c) nifer y disgyblion sydd yn yr ysgol,

a rhagolwg o'r materion hynny ym mhob un o'r pum blwyddyn ysgol sy'n dilyn gan ragdybio bod y cynigion yn cael eu cymeradwyo.

16. Os ysgol arbennig yw'r ysgol, yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ysgol am y flwyddyn ysgol gyfredol a'r pedair blwyddyn ysgol flaenorol -

- (a) nifer y disgyblion yn yr ysgol,
- (b) nifer y disgyblion ym mhob grŵp oedran ac o bob rhyw, ac
- (c) nifer y disgyblion â phob un o'r mathau o anghenion addysgol arbennig y mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar eu cyfer yn yr ysgol,

a rhagolwg o'r niferoedd hynny am bob un o'r pum

provision which is recognised by the local education authority as reserved for children with special educational needs,

in the area of the local education authority who maintain the school.

12. Information as to -

- (a) the number of pupils over compulsory school age at each school referred to in paragraph 11(a), and
- (b) the number of pupils over compulsory school age at each school referred to in paragraph 11(b) for whom the provision referred to in that sub-paragraph is made,

in the current school year together with a forecast of that number in each of the subsequent 5 school years.

13. Information as to the numbers of pupils over compulsory school age with special education needs of each type for whom the local education authority maintain a statement of special educational needs in the current school year together with a forecast of such numbers for each of the subsequent 5 school years.

14. Copies of the reports of the two inspections under Part I of the School Inspections Act 1996 as a result of which Parts II and III of Schedule 7 apply in relation to the school.

PART IV

ADDITIONAL INFORMATION TO BE SENT WHERE THE PROPOSALS ARE TO DISCONTINUE A SIXTH FORM

15. Where the school is a mainstream school, the following information relating to the school for the current school year and (except for the information specified in paragraph (c)), the previous school year -

- (a) the number of year groups,
- (b) the capacity of the school, and
- (c) the number of pupils at the school,

and a forecast of those matters specified in each of the subsequent 5 school years on the assumption that the proposals are approved.

16. Where the school is a special school, the following information relating to the school for the current school year and the preceding 4 school years -

- (a) the number of pupils at the school,
- (b) the number of pupils of each age group and each sex, and
- (c) the number of pupils with each type of special educational needs for which provision is made at the school,

and a forecast of those numbers for each of the

blwyddyn ysgol sy'n dilyn gan ragdybio bod y cynigion yn cael eu cymeradwyo.

17. Pan fydd y cynigion yn ymwneud ag ysgol wirfoddol, datganiad a fydd, o ganlyniad i'r cynigion, angen mwyach am y tir a'r adeiladau a ddefnyddir at ddibenion yr ysgol ac os na fydd angen -

- (a) datganiad a yw'r tir a'r adeiladau hynny i'w gwerthu, ac os felly, amcangyfrif o arenillion y gwerthiant, a
- (b) os nad yw'r tir a'r adeiladau i'w gwerthu, datganiad ar ddefnydd arfaethedig y tir a'r adeiladau,

os trefnwyd bod yr wybodaeth honno ar gael i'r Cyngor.

18. Manylion nifer y disgyblion dros oedran ysgol gorfodol ym mhob grŵp blwyddyn sy'n aros yn yr ysgol sy'n destun cynigion yn y ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol gyfredol.

19. Manylion nifer y disgyblion dros oedran ysgol gorfodol ym mhob grŵp oedran sydd wedi trosglwyddo o'r ysgol sy'n destun y cynigion i sefydliad arall sy'n darparu addysg llawn amser neu ran-amser yn ystod y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff 18.

20. Manylion y sefydliadau y trosglwyddodd y disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraff 19 iddynt gan ddangos faint o ddisgyblion a aeth i bob sefydliad felly.

21. Nifer y disgyblion y cyfeirir atynt ym mharagraffau 18 a 19 ym mhob grŵp blwyddyn fel cyfran o gyfanswm y disgyblion yn y grŵp blwyddyn hwnnw.

22. Manylion yr ysgolion neu'r colegau addysg bellach y bwriedir y gall disgyblion sy'n cael addysg chweched dosbarth ar hyn o bryd drosglwyddo iddynt os cymeradwyir y cynigion, gan gynnwys asesiad o ansawdd y sefydliadau hynny ac o unrhyw drefniadau pontio a fydd yn gymwys.

23. Os ysgol prif-ffrwd yw'r ysgol, manylion canlyniadau'r arholiadau canlynol ar gyfer y ddwy flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn ysgol gyfredol yn yr ysgol sy'n destun y cynigion ac ym mhob ysgol a gynhelir, pob coleg technoleg dinas, pob coleg dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau a phob coleg addysg bellach a enwir yn unol â pharagraff 20 -

- (a) canlyniadau arholiadau TGAU wedi'u cyfyngu, yn achos ysgolion heblaw'r ysgol sy'n destun y cynigion a cholegau addysg bellach, i ganlyniadau arholiadau TGAU a gymerwyd gan ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol;
- (b) canlyniadau arholiadau safon Uwch ac Uwch Gyfrannol TAG, ac
- (c) NVQs, GNVQs a chymwysterau galwedigaethol eraill a enillwyd gan

subsequent 5 school years on the assumption that the proposals are approved.

17. Where the proposals relate to a voluntary school, a statement as to whether, as a result of the proposals, premises used for the purposes of the school will no longer be required and if so -

- (a) a statement as to whether those premises will be sold, and, if so, the estimated sale proceeds, and
- (b) if the premises are not to be sold a statement as to the proposed use of the premises,

if such information has been made available to the Council.

18. Details of the number of pupils over compulsory school age in each year group remaining at the school the subject of the proposals in the two school years before the current school year.

19. Details of the number of pupils over compulsory school age in each age group who have transferred from the school the subject of the proposals to another institution providing full-time or part-time education during the period referred to in paragraph 18.

20. Details of the institutions to which the pupils referred to in paragraph 19 transferred indicating how many pupils went to each such institution.

21. The number of pupils referred to in paragraphs 18 and 19 in each year group as a proportion of the total number of pupils in that year group.

22. Details of the schools or further education colleges to which it is proposed that pupils currently receiving sixth form education may transfer if the proposals are approved, including an assessment of the quality of those institutions and any transitional arrangements which will apply.

23. Where the school is a mainstream school, details of the following examination results for the two school years before the current school year at the school which is the subject of the proposals and at each maintained school, city technology college, city college for the technology of the arts and further education college named in accordance with paragraph 20 -

- (a) results of GCSE examinations limited, in the case of schools other than the school the subject of the proposals and further education colleges, to the results of GCSE examinations taken by pupils over compulsory school age;
- (b) results of GCE 'A' level and 'AS' examinations, and
- (c) NVQs, GNVQs and other vocational qualifications attained by pupils over

ddisgyblion dros oedran ysgol gorfodol.

24. Nifer y lleoedd sydd ar gael yn y sefydliadau hynny a enwir yn unol â pharagraff 20 sydd yn ysgolion.

25. Manylion y pellter, wedi'i fesur ar y llwybr byrraf sydd ar gael, rhwng yr ysgol a'r holl sefydliadau a enwir yn unol â pharagraff 20 ynghyd â manylion am y cludiant cyhoeddus sydd ar gael i'r sefydliadau hynny a enwir yn unol â pharagraff 22 (pan nad oes gwybodaeth felly wedi'i chynnwys eisoes mewn unrhyw drefniadau arfaethedig ar gyfer cludiant a gynhwysir mewn cynigion a gyhoeddir yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 1).

RHAN V

YR WYBODAETH YCHWANEGOL SYDD I'W HANFON PAN FYDD Y CYNIGION YN GYNIGION I GAU SEFYDLIAD 16-19 OED

26. Os ysgol prif-ffrwd yw'r ysgol, yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ysgol am y flwyddyn ysgol gyfredol a'r flwyddyn ysgol flaenorol (ac eithrio'r wybodaeth a bennir yn is-baragraff (ch)), -

- (a) y rhif safonol perthnasol ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol;
- (b) nifer y grwpiau blwyddyn;
- (c) faint o le sydd yn yr ysgol; ac
- (ch) nifer y disgyblion yn yr ysgol.

27. Os ysgol arbennig yw'r ysgol, yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol a'r pedair blwyddyn ysgol flaenorol -

- (a) nifer y disgyblion yn yr ysgol;
- (b) nifer y disgyblion ym mhob grŵp oedran ac o bob rhyw; ac
- (c) nifer y disgyblion â phob un o'r mathau o anghenion addysgol arbennig y mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar eu cyfer yn yr ysgol.

28. Yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ystafelloedd yn yr ysgol -

- (a) lleoliad yr ystafelloedd;
- (b) a yw'r ysgol ar safle sengl neu ar safle wedi'i rannu; ac
- (c) manylion yr ystafelloedd cyffredinol ac arbenigol.

29. Manylion yr ysgolion a'r colegau addysg bellach y gellid yn rhesymol, ym marn y Cyngor, ddisgwyl i'r disgyblion a fyddai fel arall wedi mynychu'r ysgol allu eu mynychu ar ôl darfod oedran ysgol gorfodol os cymeradwyir y cynigion, gan gynnwys asesiad o ansawdd y sefydliadau hynny ac o unrhyw drefniadau pontio a fydd yn gymwys.

compulsory school age.

24. The number of places available at those institutions named in accordance with paragraph 20 which are schools.

25. Details of the distance, measured by the nearest available route, between the school and all of the institutions named in accordance with paragraph 20 together with details as to the availability of public transport to the institutions named in accordance with paragraph 22 (where such information is not already contained in any proposed arrangements for transport contained in published proposals pursuant to paragraph 4 of Schedule 1).

PART V

ADDITIONAL INFORMATION TO BE SENT WHERE THE PROPOSALS ARE TO DISCONTINUE A 16-19 INSTITUTION

26. Where the school is a mainstream school, the following information relating to the school for the current school year and (except for the information specified in sub-paragraph (d)), the previous school year -

- (a) the relevant standard number for each relevant age group;
- (b) the number of year groups;
- (c) the capacity of the school; and
- (d) the number of pupils at the school.

27. Where the school is a special school, the following information relating to the school for the current school year and the preceding 4 school years -

- (a) the number of pupils at the school;
- (b) the number of pupils of each age group and sex; and
- (c) the number of pupils with each type of special educational needs for whom provision is made at the school.

28. The following information relating to the accommodation at the school -

- (a) the location of the accommodation;
- (b) whether the school occupies a single or split site; and
- (c) details of general and specialist accommodation.

29. Details of schools and further education colleges which pupils who might otherwise have attended the school may, in the opinion of the Council, reasonably be expected to be able to attend after ceasing to be of compulsory school age if the proposals are approved, including an assessment of the quality of those institutions and any transitional arrangements which will apply.

30. Os ysgol prif-ffrwd yw'r ysgol, manylion canlyniadau'r arholiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff 23 am y ddwy flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn ysgol gyfredol yn yr ysgol sy'n destun y cynigion ac ym mhob ysgol a gynhelir, pob coleg technoleg dinas, pob coleg dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau a phob coleg addysg bellach a enwir yn unol â pharagraff 29.

31. Nifer y lleoedd sydd ar gael yn y sefydliadau a enwir yn unol â pharagraff 29 sydd yn ysgolion.

32. Manylion y pellter, wedi'i fesur ar y llwybr byrraf sydd ar gael, rhwng yr ysgol a'r holl sefydliadau a bennir ym mharagraff 29 ynghyd â manylion am y cludiant cyhoeddus sydd ar gael i'r sefydliadau hynny (pan nad oes gwybodaeth felly wedi'i chynnwys eisoes mewn unrhyw drefniadau arfaethedig ar gyfer cludiant a gynhwysir mewn cynigion a gyhoeddir yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 1).

30. Where the school is a mainstream school, details of the examination results referred to in sub-paragraphs (a) to (c) of paragraph 23 for the two school years before the current school year at the school which is the subject of the proposals and at each maintained school, city technology college, city college for the technology of the arts and further education college named in accordance with paragraph 29.

31. The number of places available at institutions named in accordance with paragraph 29 which are schools.

32. Details of the distance, measured by the nearest available route between the school and all the institutions specified in paragraph 29 together with details as to the availability of public transport to those institutions (where such information is not already contained in any proposed arrangements for transport contained in published proposals pursuant to paragraph 4 of Schedule 1).

**CYNISSION O DAN BARAGRAFF 43(4) O
ATODLEN 7****1. Yn yr Atodlen hon -**

ystyr "y cynigion gwreiddiol" ("*the original proposals*") yw'r cynigion a gymeradwywyd o dan Ran III o Atodlen 7 y mae'r cynigion newydd yn ymwneud â hwy; ac

ystyr "y cynigion newydd" ("*the new proposals*") yw'r cynigion hynny a grybwyllir ym mharagraff 43(4) o Atodlen 7.

2. Rhaid i'r cynigion newydd -

- (a) pan fydd yr ysgol yn ysgol prif-ffrwd gael eu cyhoeddi -
 - (i) drwy gael eu gosod mewn man amlwg yn yr ardal y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu;
 - (ii) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal honno; a
 - (iii) drwy gael eu gosod ym mhrif fynedfa'r ysgol neu wrth ei hymyl, neu os oes mwy nag un brif fynedfa, pob un ohonynt.
- (b) pan fydd yr ysgol yn ysgol arbennig gael eu cyhoeddi -
 - (i) mewn o leiaf un papur newydd sy'n cylchredeg yn ardal yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal yr ysgol; a
 - (ii) drwy gael eu gosod ym mhrif fynedfa'r ysgol neu wrth ei hymyl, neu os oes mwy nag un brif fynedfa, pob un ohonynt.

3. Rhaid i'r cynigion newydd gynnwys -

- (a) yr wybodaeth a gynhwyswyd yn y cynigion gwreiddiol, a
- (b) datganiad paham y bwriedir na ddylid gweithredu'r cynigion gwreiddiol

4. Cyn cyhoeddi'r cynigion newydd rhaid i'r Cyngor, gan roi sylw i unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, ymgynghori â'r personau hynny y maent o'r farn eu bod yn briodol.

5. Rhaid i'r Cyngor anfon -

- (a) copi o'r cynigion newydd a gyhoeddwyd;
- (b) copi o'r wybodaeth a anfonir at y Cynulliad Cenedlaethol o dan baragraff 21(1)(b) neu 29(1)(b) o Atodlen 7 a rheoliad 5 pan gyhoeddwyd y cynigion gwreiddiol; ac
- (c) yr wybodaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 5 a fyddai'n gymwys pe bai'r cynigion gwreiddiol wedi'u cyhoeddi pan gyhoeddwyd y cynigion newydd;

at y Cynulliad Cenedlaethol.

**PROPOSALS UNDER PARAGRAPH 43(4) OF
SCHEDULE 7****1. In this Schedule -**

"the new proposals" ("*y cynigion newydd*") means proposals such as are mentioned in paragraph 43(4) of Schedule 7; and

"the original proposals" ("*y cynigion gwreiddiol*") means the proposals approved under Part III of Schedule 7 to which the new proposals relate.

2. The new proposals shall -

- (a) where the school is a mainstream school be published -
 - (i) by being posted in a conspicuous place in the area served by the school;
 - (ii) in at least one newspaper circulating in that area; and
 - (iii) by being posted at or near the main entrance to the school or, if there is more than one main entrance, all of them.
- (b) where the school is a special school be published -
 - (i) in at least one newspaper circulating in the area of the local education authority who maintain the school; and
 - (ii) by being posted at or near the main entrance to the school or, if there is more than one main entrance, all of them.

3. The new proposals shall contain -

- (a) the information contained in the original proposals, and
- (b) a statement as to why it is proposed that the original proposals should not be implemented.

4. Before publishing the new proposals the Council shall, having regard to any guidance issued by the National Assembly, consult such persons as they consider appropriate.

5. The Council shall send -

- (a) a copy of the published new proposals;
- (b) a copy of the information sent to the National Assembly under paragraph 21(1)(b) or 29(1)(b) of Schedule 7 and regulation 5 when the original proposals were published; and
- (c) the information referred to in regulation 5 which would have been applicable if the original proposals had been published at the time when the new proposals were published;

to the National Assembly.

6. Pan fydd yr ysgol sy'n destun y cynigion newydd yn ysgol arbennig rhaid i'r Cyngor anfon copi o'r cynigion newydd a gyhoeddwyd at y cyrff neu'r personau yr anfonwyd copi o'r cynigion gwreiddiol atynt o dan baragraffau 21(2) a 29(2) o Atodlen 7 a rheoliad 6.

7. Caiff unrhyw berson anfon gwrthwynebiadau i'r cynigion newydd at y Cynulliad Cenedlaethol o fewn mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r cynigion.

6. Where the school the subject of the new proposals is a special school the Council shall send a copy of the published new proposals to the bodies or persons to whom a copy of the original proposals was sent under paragraphs 21(2) and 29(2) of Schedule 7 and regulation 6.

7. Any person may send objections to the new proposals to the National Assembly within one month after the date of publication of the proposals.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 432 (Cy.55)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Cynigion Trefniadaeth
Ysgol gan Gyngor Cenedlaethol
Cymru dros Addysg a Hyfforddiant
2002

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 432 (W.55)

EDUCATION, WALES

The School Organisation Proposals
by the National Council for
Education and Training for Wales
Regulations 2002

©© Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.50


W0031/03/02

ON

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090441-9



9 780110 904412